

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad	20 Hydref 2025
Swyddog Arweiniol	Gareth Owens, Swyddog Monitro
Swyddog Cyswllt	Gareth Owens
Pwnc	Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru 2025



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi ymateb drafft i'r Aelodau i'r ymgynghoriad uchod yn seiliedig ar yr adborth gan yr Aelodau a ddarparwyd yn y Seminarau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 29 Medi 2025 a 2 Hydref 2025.

ARGYMHELLION

- 2 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
 - i) Hysbysu swyddogion am unrhyw ddiwygiadau y maent yn dymuno eu gwneud i gynnwys yr ymateb drafft; a
 - ii) Cymeradwyo'r ymateb drafft i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau yr ymgynghoriad, sef 24 Hydref 2024.

CEFNDIR

- 3 Sefydlwyd y trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru trwy'r tri Gorchymyn Cyfuno yn 1996. Sefydlodd y rhain yr Awdurdodau Tân presennol a'r mecanwaith ariannu cyfunol trwy ardoll gan bob Awdurdod Lleol cyfansoddol.
- 4 Yn 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn o'r enw "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru" Bydd rhai Aelodau'n cofio ar ôl cyfnod o ymgynghori y penderfynwyd bwrw ymlaen â'r cynigion ynghylch cyllid yn unig, ond daeth y rhain i ffrwyth oherwydd y pandemig yn 2020.
- 5 Ar 29 Awst 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion i ddiwygio'r ffordd y mae awdurdodau tân ac achub (FRA) yn cael eu llywodraethu a'u hariannu yng Nghymru. Gellir gweithredu'r holl gynigion hyn o dan y Gorchmynion Cyfuno presennol.

GWYBODAETH

- 6 Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am yr ymgynghoriad a rhoddwyd dolen i'r ddogfen ar ôl dyddiad cyhoeddi 29 Awst 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn eitem ar yr agenda yn y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol ar 15 Medi 2025 a gofynnwyd i'r Aelodau fynychu Seminar Llywodraethiant i drafod yr opsiynau a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori. Cynhaliwyd y seminar hon wyneb yn wyneb ddydd Llun 29 Medi 2025 ac fe'i hailadroddwyd ar-lein ddydd Iau 2 Hydref 2025.
- 7 Ym mhob seminar trafodwyd y cynigion o amgylch y pedair thema:
 - a) Newid Aelodaeth Awdurdodau Tân ac Achub;
 - b) Craffu a Herio;
 - c) Cyllid; a
 - d) Rheoli Perfformiad ac Arolygiad Gwasanaethau Tân ac Achub.
- 8 Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd ymateb i'r cwestiynau ymgynghori yn annibynnol a chafodd y rhain eu casglu a'u crynhoi yn yr ymateb atodedig i bob un o'r cwestiynau ymgynghori.
- 9 Gofynnir i'r Aelodau graffu ar yr ymateb drafft ac awgrymu unrhyw welliannau cyn cymeradwyo'r ymateb i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn enw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r papur hwn yn cyflwyno barn yr ymgynghoriad sy'n ceisio gwella trefniadau llywodraethiant ynghylch FRS yng Nghymru.
Cyllideb	Gall y mecanweithiau ar gyfer cytuno ar y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub achosi gostyngiad mewn cyllid.
Cyfreithiol	Gellir gweithredu'r cynigion hyn o fewn y gorchmynion cyfuno presennol ac nid oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer.
Staffio	Gallai unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb fod â goblygiadau staffio.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Amh.
Risgiau	Gallai lleihau nifer yr aelodau a benodir gan awdurdodau lleol leihau'r craffu lleol ar Wasanaethau Tân ac Achub.